



Llywodraeth Cymru

Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad

Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas
â Rhan 11 o'r Ddeddf, Amrywiol a Chyffredinol,
gan gynnwys Oedolion a Phlant mewn carchar,
llety cadw ieuenctid a llety mechnïaeth,
a Phreswylfa Arferol

Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â Rhan 11 o'r Ddeddf - Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Cynnwys **Tudalen**

Adran 1

Cyflwyniad **2**

Cefndir **2**

Y dystiolaeth ar gyfer newid **3**

Y cynnig **4**

Adran 2

Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad **7**

Dadansoddiad Llywodraeth Cymru **21**

Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr

Adran 1

Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 11 o'r Ddeddf, amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys oedolion a phlant mewn carchar, llety cadw ieuencid a llety mechnïaeth, a phreswylfa arferol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Tachwedd 2014 a 2 Chwefror 2015.

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad i'r canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Y Comisiynydd Plant
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Rhwydwaith Gwella Sefydliadau Diogel Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP)
- Pwyllgor Meddygol Cymru
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cyngor Gofal Cymru
- Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru

Cafwyd cyfanswm o 63 o ymatebion. Atodir rhestr o dderbynwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru yn Adran 2.

Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf a'u gosod yn cael ei gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r gyfres gyntaf. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ym mis Ebrill 2016.

Y dystiolaeth ar gyfer newid

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch
- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlwrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i

oedolion^a, a'n Hadolygiad o Ddiogelu^b. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn ein hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, sef datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi cael ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol^c, prosiect *Galluogi Cymru* sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi edrych ar ddarpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*. Mae'r broses wedi sicrhau amrywiaeth o gyfraniadau gwerthfawr y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu defnyddio i ddatblygu'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer yr ymgynghorwyd arnynt.

Y cynnig

Mae'r cod ymarfer yn ceisio pennu polisi ar ddiwallu anghenion 'gofal a chymorth' **Oedolion a Phlant mewn Carchar, Llety Cadw Ieuenctid neu Lety Mechnïaeth** tra eu bod yn y ddalfa, ac i'w paratoi ar gyfer y gofal a'r cymorth y gall fod eu hangen arnynt pan fyddant yn cael eu hailsefydlu yn y gymuned. Mae'r Cod ymarfer yn nodi sut y dylai awdurdodau lleol weithredu'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf.

Erbyn mis Ebrill 2016 bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau yn eu lle i asesu, a diwallu, anghenion gofal a chymorth y rhai mewn sefydliadau diogel. Bydd angen i awdurdodau lleol gymhwyso'r trefniadau o dan Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf, yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ran 2, i bobl yn y ddalfa yn union fel y byddent yn ei wneud i'r rhai sy'n byw yn y gymuned.

Nid oes unrhyw reoliadau yn ymwneud ag oedolion a phlant mewn carchar, llety cadw ieuenctid na llety mechnïaeth.

Mewn perthynas â **Phreswylfa Arferol a datrys anghydfod**, cynigiwn:

^a <http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm>

^b <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?skip=1&lang=cy>

^c <http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

- Nodi llety lleoliadau oedolion ('rhannu bywydau') ochr yn ochr â llety cartref gofal yn y rheoliadau preswylfa arferol (Adran 194).
- Gwneud rheoliadau ar y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth (Adran 195).

Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- Hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad
- Darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r meysydd roeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol gymryd rhan mewn trafodaethau ar weithredu'r rheoliadau, a hefyd i rannu gwybodaeth o'r digwyddiadau â'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cafodd y digwyddiadau eu rhannu i gael barn amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o'r wlad. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 26 Tachwedd yn Stadiwm Liberty, Abertawe. Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 9 Rhagfyr yn Venue Cymru, Llandudno.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol o ran y nifer a fanteisiodd ar y lleoedd ar gyfer y digwyddiadau, gan gyrraedd y capasiti yn y ddau ddigwyddiad. Roedd tua 170 yn bresennol yn y digwyddiad yn ne Cymru a 90 yn bresennol yng ngogledd Cymru. Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan:

- | | |
|---------------------------------------|-------------------------------------|
| • Cynghrair Henoed Cymru | • Anabledd Cymru |
| • Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain | • Estyn Llaw |
| • Prifysgol Metropolitan Caerdydd | • Gwasanaeth Gwarchodol a Chadw G4S |
| • Cyngor Gofal Cymru | • Hafal |
| • Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | • Headway |
| • Cartrefi Cymru | • CEM Abertawe |
| • Plant yng Nghymru | • Anabledd Dysgu Cymru |
| • Coleg y Therapyddion Galwedigaethol | • Awdurdodau Lleol |
| • AGGCC | • Byrddau Iechyd Lleol |
| | • Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |

- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Cymru
- NOMS Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sefydliad Rowan
- RNIB Cymru
- Y Bwrdd Cyngori ar Ddiogelu
- Shine Cymru
- Heddlu De Cymru
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU
- Cynghair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
- CLILC
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob rhan yr ymgynghorir arni ar hyn o bryd. Roedd cynnwys y gweithdai hyn yn amrywiol ac wedi ei deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond wrth wraidd pob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp.

Adran 2 - Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1:

| | 1. I ba raddau rydych yn cytuno bod y bennod hon yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ymgymryd â'r dyletswyddau newydd yn y Ddeddf? | | | | |
|-------------------|---|-----------------|--------------------|-----------|-------------|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| Cyfanswm - | 17 | 16 | 5 | 1 | 12 |

Roedd 84% o'r ymatebwyr a ddirodd flwch, yn cytuno neu'n tueddu i gytuno â'r farn bod y bennod hon yn cefnogi awdurdodau lleol i ymgymryd â'r dyletswyddau newydd yn y Ddeddf. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cod ymarfer yn nodi'n glir beth yw'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol o dan y Ddeddf ond roeddent am i'r cod fod yn gliriach ynghylch y model cyflawni y dylid ei fabwysiadu.

Mynegodd wyth ymatebydd (gan gynnwys carcharorion eu hunain) yr angen i sicrhau bod trefniadau trawsffiniol a hygludedd cadarn yn eu lle i gynorthwyo trosglwyddiadau rhwng carchardai a throseddwr pan maent yn cael eu rhyddhau ac roeddem am i'r cod ymarfer gael ei gryfhau yn hyn o beth. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Coleg y Therapyddion Galwedigaethol a Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) yr angen i'r cod ymarfer gael ei ailddrafftio i osgoi unrhyw ddryswch rhwng y gofynion i'r rhai sy'n bwrw eu dedfryd yn y ddalfa yn Lloegr o dan y Ddeddf Gofal, a'r gofynion i'r rhai sy'n bwrw eu dedfryd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynorthwy a ddarperir mewn sefydliadau diogel ddarparu gwybodaeth a chynghor i'r rhai sy'n bwrw dedfryd, staff a theuluoedd ynghylch sut y byddai'r system gofal a chymorth yn gweithredu; ac y dylai'r cod hefyd nodi pa gymorth fyddai ar gael mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai cryfhau'r cod yn hyn o beth yn galluogi troseddwr i wneud penderfyniadau hyddysg am eu hamgylchiadau eu hunain wrth gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau, ac anghenion eu teuluoedd a all fod yn byw mewn ardal awdurdod lleol arall.

Cefnogodd sawl awdurdod lleol yr angen i'r Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol gael ei ddefnyddio mewn sefydliadau diogel, fel y mae yn y gymuned, er mwyn darparu mwy o barhad i'r rhai sy'n gweithredu'r system. Gwnaeth rhai awdurdodau lleol a'r Comisiynydd Plant dynnu sylw at yr angen am rannu gwybodaeth yn well ymhlith asiantaethau i gynorthwyo unigolion yn well a lleihau biwrocratiaeth.

Gwnaeth tua 13 o ymatebwyr godi'r angen am adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo wrth gyflawni'r dyletswyddau newydd hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyniodd Llywodraeth Cymru y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r bennod hon. Mae'r cod ymarfer wedi cael ei gryfhau i sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau awdurdodau lleol o dan y Ddeddf a'r trefniadau partneriaeth sydd eu hangen i gynorthwyo'r rhai mewn sefydliadau diogel.

Mae gwaith yn mynd rhagddo, gyda chymorth rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Llywio a Gweithgor, i ddatblygu llwybr cenedlaethol oedolion a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Bydd y llwybrau cenedlaethol yn cynorthwyo timau gweithredu lleol i ddatblygu eu modelau cyflawni.

Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd y gall y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy gael ei ddarparu mewn sefydliadau diogel, o ystyried y materion diogelwch. Mae'r Gwasanaeth Carchardai yn cefnogi'r dull ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sut y gall mentrau fel y 'campws rhithwir' a chysiau sefydlu gyfrannu at gyflawni'r agweddau hyn o fewn y lleoliadau diogel amrywiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod swyddogion o wahanol gyfarwyddiaethau sydd â diddordeb mewn sefydliadau diogel yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod strategaethau'n cyd-fynd â'i gilydd. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn Whitehall i sicrhau y bydd trefniadau trawsffiniol yn cael eu datblygu ac yn eu lle cyn i'r Ddeddf ddod i rym ym mis Ebrill 2016.

Cwestiwn 2:

| | 2. A oes elfennau o'r system gofal a chymorth y gellid eu cyflawni'n well i'r rhai yn yr ystadau diogel drwy gydweithio cenedlaethol rhwng awdurdodau lleol? | | | | |
|---|---|-----------------|--------------------|-----------|-------------|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| Cyfanswm - | 19 | 15 | 1 | 0 | 15 |
| Roedd 97% o'r ymatebwyr a ddiiodd flwch, yn cytuno neu'n tueddu i gytuno bod elfennau y gellid eu cyflawni drwy gydweithio cenedlaethol rhwng awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod cydweithio cenedlaethol yn ffordd i awdurdodau lleol a'u partneriaid, gydweithio i ddatblygu'r ymateb gweithredol gorau yn hytrach na chronni adnoddau a ffurfio tîm cenedlaethol. Gwnaeth tua 50% o'r ymatebwyr, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Mind Cymru a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol, nodi'n benodol yr angen am drefniadau cydweithio cryf rhwng gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol. Awgrymodd tua phum ymatebydd ymestyn cylch gwaith | | | | | |

byrddau partneriaeth iechyd carchardai i gynnwys awdurdodau lleol yn aelod statudol fel ffordd o gyflawni hyn.

Pwysleisiodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gofal Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr angen i'r cod ymarfer fod yn fwy uniongyrchol ac yn gliriach ynghylch y dyletswyddau a roddir ar sefydliadau partner ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel, pan fyddant yn y ddalfa ac wrth gynllunio ar gyfer eu rhyddhau / wrth eu rhyddhau. Gwnaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a llawer o awdurdodau lleol hefyd alw am gydweithio cadarn mewn rhanbarthau er mwyn sicrhau bod trefniadau Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn cael eu cynnal.

Awgrymodd Barnardo's Cymru y dylid cael rhaglen hyfforddi genedlaethol ar blant y mae carcharu eu rhieni yn effeithio arnynt. Awgrymwyd y gallai hyn gael ei gynnwys yn y cod ymarfer.

Cydnabu'r Comisiynydd Pobl Hŷn yr angen i asesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys y poblogaethau hynny mewn carchardai/lleoliadau diogel ac i'r wybodaeth a gesglir fod yn ystyrlon o ran cyfeirio cynlluniau awdurdod lleol/rhanbarth o ran penderfynu ar y ffordd y mae angen iddo ddiwallu anghenion gofal a chymorth ei ardal.

Roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn cefnogi cael system gofal a chymorth gyson a chydweithredol i gynorthwyo pobl ifanc â'r lleoliadau diogel.

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr gais y dylai'r cod ymarfer fod yn gliriach ynghylch y model cyflawni, ac i bob asiantaeth fod yn glir ynghylch ei rôl o fewn y model hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol drwy Grŵp Llywio a Gweithgor i gynorthwyo'r broses weithredu a chyflawni'r cod ymarfer a llwybrau cenedlaethol. Mae'r ddau grŵp wedi bod yn cynnig cyngor ar y model(au) cyflawni i'w mabwysiadu ac maent yn gyfrwng i'r awdurdodau lleol ddod at ei gilydd a chynllunio eu hymateb i'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi annog a chynorthwyo sefydlu timau gweithredu lleol ym mhob un o'r ardaloedd awdurdodau lleol. Does dim byd yn y cod ymarfer a fydd yn atal awdurdodau lleol rhag gweithio gyda'i gilydd, nac yn eu hatal rhag gweithio gydag asiantaethau eraill, i ddatblygu dull cenedlaethol os byddant yn teimlo mai dyma'r dull gorau. Mae'r cod ymarfer wedi cael ei fireinio i roi mwy o eglurhad ar rôl a chyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran y dyletswyddau newydd a dyletswyddau eu partneriaid.

Gwnaed cyfeiriad penodol at Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd a'r Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth yn y cod ymarfer diwygiedig yn ogystal â chyfeirio at y trefniadau llywodraethu a fydd yn cynorthwyo'r trefniadau strategol a gweithredol a sicrhau bod systemau

cadarn a chydgyssylltiedig yn cael eu datblygu.

Mae Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGC) wedi cael ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd y gall y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy gael ei ddarparu mewn sefydliadau diogel, o ystyried y materion diogelwch. Bydd hyn yn cynorthwyo mabwysiadu dull cenedlaethol neu i awdurdodau lleol ddefnyddio'r hyn y maent wedi ei ddysgu. Mae'r Cyngor Gofal wedi cael ei gomisiynu i baratoi Strategaeth Dysgu a Datblygu i Gymru ac arwain ar y strategaeth hon, gan gynorthwyo gweithredu, a bydd dull amlasiantaeth at hyn yn cael ei fabwysiadu i sicrhau y gall staff mewn asiantaethau partner fanteisio ar yr un hyfforddiant.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwahaniaethau yn y ffordd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymateb i'r rhai mewn sefydliadau diogel yn dibynnu a ydynt yn oedolion neu'n bobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r cod ymarfer i sicrhau bod y dyletswyddau hyn wedi eu nodi'n glir a bod cylch gwaith cyfreithiol asiantaethau partner yn cael ei gwmpasu yn y cod. Bydd sicrhau bod y cod ymarfer diwygiedig a'r canllawiau statudol, a gyhoeddir gan yr Adran Iechyd i gyd-fynd â'r Ddeddf Gofal yn Lloegr, yn ategu ei gilydd hefyd yn cynorthwyo wrth ddatblygu a chyflawni'r trefniadau trawsffiniol.

Bydd aelodaeth/strwythur y Byrddau Partneriaeth Iechyd Carchardai yn cael eu hadolygu a bydd Llywodraeth Cymru yn annog y Byrddau i wahodd awdurdodau lleol i ymuno. Bydd hyn yn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth tridarn agosach yn cael ei sefydlu rhwng awdurdodau lleol, iechyd a gwasanaethau carchardai.

Mae'r cod wedi cael ei gryfhau mewn perthynas â'r angen i awdurdodau lleol sy'n cynnal eu hasesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys poblogaethau carchar yn y broses o gasglu a dadansoddi data. Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 2 a Rhan 11 wedi cael eu croesgyfeirio i sicrhau bod y pwynt hwn yn cael ei bwysleisio'n gyson.

Cwestiwn 3:

Sut y gall y cod ymarfer ar Ran 11 gynorthwyo cyfranogiad teuluoedd o droseddwr yn well i leihau effaith dedfrydau o garchar ar y teulu ehangach?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod yr angen i deuluoedd y rhai mewn sefydliadau diogel gael eu cynorthwyo i leihau effaith dedfrydau o garchar ar y teulu ehangach. Roedd llawer yn cydnabod bod gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol rôl allweddol o ran cynorthwyo'r rhai mewn sefydliadau diogel yn y ddalfa ac ar ôl cael eu rhyddhau, a byddant yn chwarae rôl hanfodol o ran gweithio gyda theuluoedd y rhai yn y ddalfa.

Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, ynghyd â llawer o ymatebwyr eraill o'r sector statudol a'r trydydd sector, yn cydnabod y bydd mabwysiadu dull mwy cyfannol yn gwella'r sefyllfa ac yn lleihau'r effaith ar deuluoedd a gofalwyr.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant, awdurdod lleol Powys a Barnardo's Cymru at dystiolaeth ymchwil sy'n dangos bod plant rhieni sydd yn y carchar llawer yn gwneud yn llawer gwaeth na'u cyfoedion, a bod angen i awdurdodau lleol nodi'r plant a'r teuluoedd hyn er mwyn gallu cynnig mwy o gymorth iddynt. Croesawodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y trefniadau o dan Ran 11, yn enwedig o ran yr effaith gadarnhaol roeddent yn debygol o'i chael ar deuluoedd y rhai yn y carchar. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylid cynnwys enghreifftiau o arfer da o brosiectau presennol fel Prosiect Invisible Walls a'r Model Grŵp Teuluoedd yn y cod ymarfer, yn ogystal â chyfeiriad pellach at ymgysylltu â theuluoedd a gofalwyr yn y cod.

Awgrymodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiynydd Plant y byddai'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy yn adnodd allweddol i alluogi'r rhai mewn sefydliadau diogel i gael mynediad at eu gofal a'u cymorth yn ogystal ag aelodau o'u teulu, pa un a oeddent yn byw yn yr un awdurdod lleol â'r carchar lle roedd eu partner wedi'i gadw, neu'n byw mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod Gwasanaethau Prawf yn cael eu trawsnewid drwy greu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol; a bod y rhain yn bartneriaid allweddol o ran darparu gofal a chymorth i'r rhai mewn sefydliadau diogel, a'u teuluoedd, wrth symud ymlaen. Mae'r cod ymarfer wedi cael ei gryfhau i sicrhau bod y trefniadau partneriaeth rhwng yr awdurdodau lleol a'r gwasanaethau prawf yn glir ac osgoi dyblygu ymdrech.

Mae cynorthwyo teuluoedd, ac yn enwedig plant y rhai mewn sefydliadau diogel, yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (NOMS). Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cryn 'arfer da' eisoes yn cael ei wneud gan sefydliadau'r trydydd sector sy'n gweithio mewn carchardai i gynorthwyo plant a theuluoedd. Mae Barnardo's Cymru, gan weithio gyda'r Bartneriaeth ar gyfer Gweithredu Cymunedol, yn gweithredu'r prosiect Invisible Walls yng Ngharchar EM y Parc sy'n ceisio cynorthwyo plant y mae carcharu eu rhieni yn effeithio arnynt, a bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo gwaith ychwanegol dros haf 2015 i nodi ffyrdd y gall awdurdodau lleol nodi a chynorthwyo'r plant hyn a'u teuluoedd a gellir nodi'r ffyrdd hyn yn y cod terfynol yn yr hydref.

Mae'r cod ymarfer wedi cael ei gryfhau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen i deilwra'r Wybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy i'r rhai mewn lleoliadau diogel. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal darn o waith i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth ddefnyddio 'campws rhithwir' carchardai a chyfle ar gyfer negeseuon e-bost diogel.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn NOMS i sicrhau cysondeb dull wrth ailddrafftio'r cod ymarfer i gyd-fynd â'r trefniadau

yn Lloegr o dan Ddeddf Gofal 2014 ac i sefydlu trefniadau trawsffiniol ymarferol y bydd angen cytuno arnynt yn genedlaethol ar gyfer y rhai sy'n symud rhwng lleoliadau drwy drosglwyddiadau rhwng carchardai neu ryddhau a gynlluniwyd.

Cwestiwn 4:

| | 4. I ba raddau rydych yn cytuno bod y Cod Ymarfer y cwmpasu pob agwedd berthnasol ar breswylfa arferol a datrys anghydfod? A oes unrhyw faterion eraill sydd angen eu cynnwys? | | | | |
|-------------------|---|-----------------|--------------------|-----------|-------------|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| Cyfanswm - | 18 | 12 | 4 | 0 | 17 |

Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CLILC a'r Comisiynydd Plant fod y cod drafft yn cwmpasu'r holl agweddau perthnasol ar breswylfa arferol, ac roedd barn gyffredinol yr ymatebwyr hefyd yn gadarnhaol.

Roedd y prif fater dan sylw'n ymwneud â chyfeiriad yn adran 194 o'r Ddeddf at, 'Pan fo gan oedolyn anghenion am ofal a chymorth nad oes modd eu diwallu ond os yw'n byw mewn llety o fath a bennir mewn rheoliadau.' Awgrymwyd y dylid cael cysylltiad clir â Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf, ar asesu a diwallu anghenion, i sicrhau nad yw pobl yn cael eu dal mewn llety nad yw o bosibl yn addas i'w hanghenion mwyach.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rheoliadau a'r cod ymarfer sy'n ymwneud â Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu a diwallu anghenion unigolion ar gyfer gofal a chymorth, gan gynnwys yr anghenion hynny y 'gellir a gellir yn unig' eu diwallu gan ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi'u targedu, gan gynnwys llety cartref gofal. Dylid dim ond rhoi unigolion mewn cartrefi gofal preswyl os mai dyma'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion asesedig, a dylid parhau i adolygu lleoliadau o'r fath yn rheolaidd. Bydd ailasesiadau yn cael eu sbarduno gan unrhyw newid i amgylchiadau'r unigolyn, i sicrhau eu bod yn cael eu lleoli'n briodol a bod y pecyn o wasanaethau gofal a chymorth yn parhau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r darpariaethau yn adran 194 wedi'u cyfyngu o ran eu cwmpas i benderfynu lle y tybir bod unigolyn sy'n cael ei osod mewn llety o'r fath yn preswyl fel arfer, ac felly pa awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb parhaus dros yr unigolyn hwnnw.

Cwestiwn 5:

| | 5. I ba raddau rydych yn cytuno y dylai llety lleoli oedolion ('rhannu bywydau') gael ei gynnwys yn y rheoliadau ar lety a bennwyd? | | | | |
|-------------------|--|-----------------|--------------------|-----------|-------------|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| Cyfanswm - | 23 | 7 | 0 | 1 | 20 |

Er bod sefydliadau'r trydydd sector yn gefnogol o hyn ar y cyfan, ac nid oeddent yn rhagweld unrhyw broblemau, yn eu hymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad mynegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS) Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) y farn lle roedd llety yn cael ei ddarparu o dan gytundeb tenantiaeth rhwng yr unigolyn a'r darparwr llety, dylai rheolau arferol preswylfa arferol fod yn berthnasol. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oedd rheswm 'tybio' eu bod yn preswylfio fel arfer mewn mannau eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod y mater hwn ymhellach gyda CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i egluro i ba raddau y mae gan oedolion mewn trefniadau rhannu bywydau denantiaethau. Mae'r trafodaethau hyn wedi cadarnhau bod oedolion sy'n byw mewn trefniadau rhannu bywydau, ac eithrio ar gyfer seibiannau byr, â chytundebau tenantiaeth sy'n eu galluogi i hawlio budd-dal tai gan yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddo. Mae hyn yn awgrymu y dylai ystyr arferol a naturiol preswylfa arferol fod yn berthnasol yn yr achosion hyn – h.y. mae'r unigolion wedi symud cartref ac maent, felly, yn preswylfio fel arfer yn eu hardal newydd ac yn gymwys i gael gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal honno. Pan fydd lleoliad ar gyfer seibiant byr yn unig (e.e. fel math o ddarpariaeth 'seibiant'), yna'r awdurdod lleoli fyddai'n parhau i dalu am y costau lleoli, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Daeth y trafodaethau hyn i'r casgliad hefyd bod awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn datblygu dulliau rhanbarthol o ran darparu gofal a chymorth mewn ardaloedd fel darpariaeth rhannu bywydau. Er enghraifft, mae awdurdodau Gwent yn gweithredu cynllun rhanbarthol Rhannu Bywydau, gan sicrhau mwy o ddewis i unigolion a fyddai'n cael budd o'r math hwn o drefniant byw. Ceir hefyd weithdrefnau datrys clir o dan reoliadau a chod ymarfer Rhan 11 ar gyfer unrhyw anghydfod sy'n digwydd, ac mae'r cod yn egluro'r pwysigrwydd a roddwn ar ddulliau cydweithredu a chydweithio rhwng awdurdodau o ran diwallu anghenion gofal a chymorth eu poblogaethau lleol.

Yn sgîl yr ystyriaethau hyn, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu peidio â chynnwys rhannu bywydau yn y rheoliadau llety penodedig. Ac eithrio seibiannau byr, yr awdurdod lleol lle y mae'r llety wedi'i leoli ynddo fydd yn talu am anghenion gofal a chymorth unigolyn mewn trefniant rhannu bywydau.

Cwestiwn 6:

A ydych yn credu bod angen cryfhau'r gweithdrefnau datrys anghydfod mewn unrhyw ffordd? A oes unrhyw hepgoriadau, neu unrhyw agweddau sy'n peri pryder ichi?

Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys ac eithrio'r mater tenantiaeth yr ymdriniwyd ag ef o dan Gwestiwn 5 uchod.

Cwestiwn 7:

A oes unrhyw fath arall o lety rydych yn credu y dylid ei gynnwys yn y llety a bennwyd (e.e. byw â chymorth)? Os felly, esboniwch pam rydych yn credu y dylid ei gynnwys, unrhyw fater a all godi oherwydd hyn a sut y gellir mynd i'r afael â hwy.

Cafwyd yr ymatebion a'r trafodaethau mwyaf yn yr atebion i'r cwestiwn hwn. Rhoddwyd rhesymau amrywiol pam y dylai byw â chymorth gael ei gynnwys yn y rheoliadau llety penodedig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gall anghydfodau ynglŷn â phreswylfa arferol godi eisoes pan fydd pobl wedi symud i gynlluniau byw â chymorth neu'n ystyried gwneud hynny, ac mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn gweithredu fel petai cynlluniau byw â chymorth wedi'u cynnwys.
- Anawsterau posibl gyda threfniadau trawsffiniol os bydd y diffiniadau o lety penodedig yng Nghymru yn fwy cul na'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf Gofal yn Lloegr.
- Mae llawer o sefydliadau'n darparu trefniadau byw â chymorth i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, ac mae'n gwneud synnwyr eithrio'r trefniadau byw hyn rhag llety penodedig am eu bod yno i helpu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion.
- Os na fydd byw â chymorth yn cael ei gynnwys, bydd hyn yn cyfyngu'n ddifrifol ar y cyfle i bobl sy'n byw y tu allan i ardal ddatblygu a chynnal eu hannibyniaeth.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn ein bod yn rhy gyfyngol yn ein manyleb o ran mathau penodol o lety.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rhaid pwysleisio bod y rheoliadau llety penodedig yn gwasanaethu diben cyfyngedig penodol – h.y. maent yn sefydlu y tybir bod 'preswylfa arferol' person mewn ardal awdurdod lleol sy'n wahanol i'w man preswyllo mewn

rhai amgylchiadau penodol. Nid yw'r rheoliadau'n ceisio cyfyngu ar y math o lety y gellir rhoi'r person hwnnw ynddo, na chyfyngu ar ddewis yr unigolyn. Bydd y fframwaith ar gyfer asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn o dan Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf yn sefydlu pa fath o lety a all ddiwallu anghenion y person hwnnw orau a'r dewisiadau sydd ar gael i'r person hwnnw.

Ar ôl ystyried y mater hwn ymhellach, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnal y sefyllfa bresennol o ran llety penodedig. Golyga hyn y bydd y darpariaethau 'tybiedig' dim ond yn berthnasol pan fydd unigolyn yn cael ei osod mewn llety cartref gofal. Pan fydd person yn symud i mewn i lety o dan gytundeb tenantiaeth (sy'n cynnwys llety byw â chymorth a'r rhan fwyaf o drefniadau rhannu bywydau), ymddengys yn synhwyrol defnyddio ystyr cyffredin a naturiol preswylfa arferol a derbyn bod yr unigolyn wedi dewis symud cartref. Fel tenantiaid gallant wneud cais am fudd-dal tai (os ydynt yn gymwys) a chymorth tai arall gan yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddo bellach, ac ymddengys na fyddai cyfiawnhad dros 'dybio' eu bod yn byw mewn man arall at ddibenion cael gofal a chymorth.

Cwestiwn 8:

| | 8. I ba raddau rydych yn cytuno â'r gweithdrefnau datrys anghydfod? | | | | |
|--|--|-----------------|--------------------|-----------|-------------|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| Cyfanswm - | 16 | 14 | 0 | 0 | 19 |
| <p>Roedd cytundeb cyffredinol â'r gweithdrefnau hyn. Gwnaeth ymateb Comisiynydd Plant Cymru gyfleu'r naws gyffredinol, sef bod y gweithdrefnau datrys anghydfod 'yn ymddangos eu bod yn glir iawn ac yn cael budd o amserlenni a disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol o ran pa dystiolaeth y dylent fod yn ei darparu mewn perthynas ag anghydfodau'. Hefyd, 'rwy'n falch bod y cod yn sicrhau, pan fydd preswylfa arferol yn destun dadl, fod canllawiau clir i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu i unigolion ac nad yw'r person yn mynd heb ofal wrth i'r anghydfod gael ei ddatrys rhwng awdurdodau. Rwyf hefyd yn falch bod mecanwaith yn ei le i Lywodraeth Cymru benderfynu pan na fydd awdurdodau lleol yn gallu datrys materion eu hunain.'</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y gweithdrefnau datrys anghydfod yn cael eu hystyried fel rhai sy'n addas at y diben.</p> | | | | | |

Cwestiwn 9:

A ydych yn credu bod angen cryfhau'r gweithdrefnau datrys anghydfod

mewn unrhyw ffordd? Sut?

Cafwyd awgrymiadau amrywiol penodol ar gyfer gwella'r gweithdrefnau neu'r cod, gan gynnwys (er enghraifft) cydnabod yn glir rôl darparwyr o ran sicrhau parhad gofal i unigolyn yn ystod anghydfod.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym wedi ystyried yr awgrymiadau penodol ar gyfer gwella, ac rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r cod lle roedd hyn yn ymddangos yn angenrheidiol (er enghraifft, cydnabod rôl darparwyr).

Cwestiwn 10:

A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?

Crynodeb

Awgrymodd llawer o'r ymatebion a gafwyd, gan gynnwys sawl awdurdod lleol a Chydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru, y bydd y rheoliadau a'r cod yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion, yn enwedig lle gall fod angen gofal a chymorth wedi'i deilwra ar unigolion. Nododd yr ymatebion y dylai'r cynigion i asesu a diwallu anghenion gofal a chymorth y rhai yn y carchar gael effaith gadarnhaol ar yr unigolion hynny.

Nododd yr ymatebion, gan gynnwys y rhai gan Mind Cymru, y bydd y cynigion, yn enwedig y meysydd sy'n cwmpasu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ac ymgysylltu â theuluoedd, hefyd yn sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu gwasanaethu'n well. Bydd hyn yn golygu gwell mynediad i wasanaethau a darparu gwasanaethau a fydd yn eu tro yn caniatáu ar gyfer dewis mwy hyddysg a gwell ansawdd bywyd.

Mewn ymatebion eraill, gan gynnwys y rhai gan Scope Cymru, pwysleiswyd er bod y cynigion yn anelu at gael effaith gadarnhaol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig, mae'n bwysig bod gan bobl anabl yr un hawliau â phobl nad ydynt yn anabl. Nododd rhai ymatebion hefyd mai'r defnydd ymarferol o'r cynigion fydd yn allweddol i nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r cynigion yn Rhan 11 ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel wedi'u cynllunio i gynorthwyo pob unigolyn, gan sicrhau bod modd asesu anghenion gofal a chymorth person a diwallu ei anghenion yn y system newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhai â nodweddion gwarchoddedig yn cael yr un hawliau ac oherwydd nad oes angen mwyach i anghenion unigolyn gael

| | |
|--|--|
| | <p>eu hystyried yn gymwys cyn iddo gael cymorth bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol.</p> <p>Mae'r cynigion ar breswylfa arferol, yn enwedig o ran llety a bennir, dim ond yn ceisio egluro'r cyfrifoldeb lle mae oedolyn yn cael ei osod mewn math penodol o lety (cartrefi gofal). Bydd y ffordd y mae awdurdodau lleol yn asesu a diwallu angen unigolyn yn cael ei llywodraethu gan y darpariaethau yn Rhan 3 a 4 o'r Ddeddf.</p> |
|--|--|

Cwestiwn 11:

| <p>A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?</p> | |
|---|--|
| <p>Crynodeb</p> | <p>Nododd rhai ymatebion fod potensial i'r cynigion effeithio'n negyddol ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig, oherwydd efallai na fydd yr awdurdod lleol lle mae unigolyn yn preswyllo ynddo fel arfer yn y sefyllfa orau i gynorthwyo'r unigolyn hwnnw â'i anghenion. Awgrymwyd y gellir gwella hyn drwy sicrhau bod y cyfathrebiadau a'r cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol yn cael eu cryfhau. Mewn ymatebion eraill nodwyd y dylid bod yn ofalus nad yw'r rheoliadau'n cymhlethu mynediad i lety addas ar gyfer grwpiau agored i niwed.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>O ran y rhai mewn sefydliadau diogel mae'r cod yn nodi'n glir y cyfrifoldebau ar awdurdodau lleol ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n weithredol i gynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â darparu'r dyletswyddau hyn i gynllunio a datblygu dulliau priodol o gyflawni'r dyletswyddau hyn.</p> <p>Mae gan lawer o'r rhai mewn sefydliadau diogel nodweddion gwarchoddedig, yn union fel pe baent yn byw yn y gymuned. Mae'r dyletswyddau o dan Ran 11 yn sicrhau y gellir asesu eu hanghenion gofal a chymorth a'u diwallu'n gyson ledled Cymru, ac mae hyn yn cynnig effaith gadarnhaol yn hytrach nag effaith negyddol.</p> <p>Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiad o angen ac i ddarparu gofal a chymorth sy'n bodloni pecyn gofal a chymorth unigolyn. Bydd y cod ymarfer ar breswylfa arferol yn helpu i chwalo unrhyw rwystrau yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am anghenion</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>unigolyn, yn enwedig pan fydd yn ofynnol i unigolyn symud ardaloedd. Bydd penderfyniadau am asesu a diwallu anghenion am ofal a chymorth unigolyn yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau a'r codau ymarfer o dan Rannau 3 a 4 o'r Ddeddf. Bydd y gweithdrefnau datrys anghydfod hefyd yn helpu i leihau anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynglŷn â thalu am ofal a gwelir hyn fel effaith fwy cadarnhaol, yn hytrach nag effaith negyddol.</p> |
|--|--|

Cwestiwn 12:

| Bydd ailgydbwyso'r system gofal a chymorth i gyflawni'r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw'r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn? | |
|---|---|
| <p>Crynodeb</p> | <p>Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at dri maes allweddol i weithredu'r cynigion.</p> <p>Dyma'r tri maes:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu ar y ddarpariaeth llinell sylfaen bresennol ac archwilio ffyrdd newydd o wella'r gweithlu a chydweithio • Hyfforddiant i bawb dan sylw, gan gynnwys (lle y bo'n briodol) hyfforddiant i'r cyhoedd, neu o leiaf rhoi cyngor a chymorth iddynt • Cyllid ac adnoddau eraill i gynorthwyo gweithredu'r cynigion. <p>Amlygodd yr ymatebion eraill y bydd angen i awdurdodau lleol ystyried cydbwyso'r gyllideb ac adnoddau ac y gall fod angen dull 'buddsoddi i arbed' er mwyn gwireddu potensial y cynigion.</p> <p>Dyma'r meysydd eraill i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid ystyried yn ofalus effaith cynigion ar blant ac argymhellir y dylid cynnal asesiad effaith o Hawliau Plant a'i gyhoeddi • Darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn fyddai'n cyfateb i seiliau rhesymol i wyro oddi wrth unrhyw ofynion yn y cod ymarfer. Mae hyn i sicrhau bod awdurdodau lleol a'r cyhoedd yn glir ynghylch lle y gall unrhyw wyro oddi wrth ymarfer ddigwydd ac o dan ba amgylchiadau. • Sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn cau gwasanaethau hanfodol eraill er mwyn darparu |

| | |
|--|---|
| | <p>adnoddau ar gyfer y cynigion newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Neges genedlaethol glir gan bawb sy'n ymwneud â hyn eu bod yn ymrwymedig i weithredu'r cynigion. <p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>Ceir cydnabyddiaeth y bydd y system newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid newid eu harferion. Mae'n bwysig cynorthwyo mwy o ymyrryd ac atal yn gynnar a sicrhau bod unigolion, a'u teulu a'u gofalwyr, yn gwybod o ble y gallant gael gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a'u hawliau i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth, beth bynnag fo'u hamgylchiadau.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddod at ei gilydd drwy gydweithio rhanbarthol i ailgynllunio a datblygu prosesau newydd. Mae Cyngor Gofal Cymru yn gweithio i ddatblygu pecynnau hyfforddi cynhwysfawr ac mae sefydlu canolfannau gwybodaeth a dysgu a'r cyllido grant pontio yn galluogi awdurdodau lleol i gynorthwyo'r pontio yn effeithiol.</p> |
|--|---|

Cwestiwn 13:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.

| | |
|------------------------|--|
| <p>Crynodeb</p> | <p>Ymhlith y materion eraill a godwyd roedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen derbyn yn glir ac yn ddiamwys y goblygiadau o ran costau unrhyw ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol. • Gwybodaeth glir i ddinasyddion • Gwybodaeth glir am sut y bydd codau'n cael eu gwerthuso. • Mwy o wybodaeth yn y cod ymarfer am gynllunio pontio i'r rhai sy'n symud o systemau cyfiawnder ieuencid i systemau oedolion, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynlluniau parhad gofal. • Canllawiau mwy eglur ar berthnasoedd trawsffiniol â Lloegr yn enwedig o ran pobl ifanc/oedolion o Gymru a all fod mewn sefydliadau diogel yn Lloegr. • Rhaid i gyfeiriadau at iechyd meddwl mewn codau fod |
|------------------------|--|

| | |
|--|---|
| | <p>yn glir i osgoi anghydfodau o ran dehongli canllawiau statudol.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r angen am gysylltiadau rhwng cod ymarfer Rhan 11 a chod ymarfer Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Mae cydweithwyr polisi yn gweithio i gryfhau'r adrannau perthnasol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr yn Whitehall i ystyried trefniadau trawsffiniol, boed ar gyfer trosglwyddo rhwng carchardai neu ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau i ailsefydlu yng Nghymru neu Loegr.</p> <p>Bydd codau ymarfer ar gyfer pob rhan o'r Ddeddf yn cael eu croesgyfeirio a byddant yn ffurfio cyfres o godau ar gyfer cymhwyso gofynion statudol y ddeddfwriaeth a chynorthwyo cyflawni'r system gyfan o newid a gyflwynir gan y Ddeddf.</p> |
|--|---|

Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

Y rhai mewn sefydliadau diogel

Cadarnhaodd yr ymatebion a gafwyd fod cefnogaeth gadarnhaol ar gyfer y cod ymarfer mewn perthynas â'r rhai mewn sefydliadau diogel. Mae parodrwydd rhanddeiliaid i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cod ymarfer wedi bod yn ffactor allweddol o ran arddel y safbwynt hwn. Mae'r cyfraniadau gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau yn ystod yr ymgynghoriad ei hun, gan gynnwys carcharorion, wedi galluogi Llywodraeth Cymru i wella'r cod ymhellach.

Croesawodd yr ymatebwyr gyfeiriad cyfan y cod ymarfer, yn bennaf diwallu anghenion gofal a chymorth y rhai mewn sefydliadau diogel yn union fel petaent yn byw yn y gymuned. Croesawyd y pwyslais cryf ar ganlyniadau llesiant, atal a llais a rheolaeth gref i unigolion yn y sefyllfa hon gan gydnabod y ffordd y byddai hyn yn cynorthwyo unigolion yn well wrth iddynt gael eu rhyddhau.

Cafwyd galwad am fwy o eglurder ynghylch sut y byddai'r dyletswyddau newydd hyn (yn enwedig Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, Asesu a Chynllunio Gofal) yn gweithredu yn ymarferol. Roedd yn amlwg o'r ymatebion bod llawer yn teimlo y dylid cryfhau'r cod i amlygu'r gwahanol drefniadau i blant ac oedolion mewn sefydliadau diogel ac mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn yn y cod ac wrth ddatblygu ymhellach y llwybrau i oedolion a phlant/pobl ifanc.

Roedd cydnabyddiaeth bod y Ddeddf/cod ymarfer yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth mewn sefydliadau diogel ac i gynorthwyo'r rhai sy'n cynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau a phan fyddant yn cael eu rhyddhau. Cafodd yr angen am adnoddau ychwanegol i sefydlu'r model cyflawni, a darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn sefydliadau diogel (offer yn ogystal â hyfforddiant) ei godi'n gyson ac mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar amcangyfrifon o'r cyllid sydd ei angen i gynorthwyo'r gwaith hwn.

Ni wnaeth y potensial ar gyfer cydweithio cenedlaethol rhwng awdurdodau lleol ennyn barn gref a rhoddwyd mwy o bwyslais ar yr angen am fwy o eglurder ynghylch y model(au) a ddylai o bosibl ystyried cynllunio yn y ddalfa ac ailsefydlu; yn ogystal ag ar gyfer oedolion a phlant. Y cyfeiriad a gymerir gan Lywodraeth Cymru yw cynorthwyo awdurdodau lleol, sydd â charchardai o fewn eu ffiniau, i arwain gwaith ar asesiadau o'r boblogaeth leol a modelau cyflawni lleol.

Galwodd rhai o'r ymatebwyr am fwy o bwyslais ar drefniadau i gynorthwyo plant a theuluoedd y rhai y mae eu rhieni wedi'u carcharu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod tystiolaeth sy'n dangos nad yw plant sydd â'u rhieni yn y carchar yn gwneud cystal â'u cyfoedion ac mae'r cod ymarfer wedi'i gryfhau o ran cyfeirio awdurdodau lleol a'u partneriaid i chwilio am gyfleoedd i nodi a chynorthwyo aelodau o deuluoedd carcharorion.

Mae'r cod ymarfer yn cydnabod cymhwyso'r trefniadau hygludedd ar gyfer trosglwyddiadau rhwng carchardai yng Nghymru: ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo carcharorion a'u teuluoedd wrth symud o fewn sefydliadau diogel.

Mae'r cod ymarfer wedi'i gryfhau o ran polisi diogelu i oedolion a phlant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Mae eglurder ar rolau a chyfrifoldebau diogelu carcharorion wedi'i gynnwys o ran oedolion ac mae gwaith yn parhau gyda rhanddeiliaid allweddol o ran plant a phobl ifanc. :

Cafodd hyfforddiant a datblygu sgiliau yn y gweithlu sy'n ofynnol i gynorthwyo gweithredu dyletswyddau newydd eu pwysleisio'n gyffredinol yn yr ymatebion. Er bod hyn yn gyffredin ar draws pob cod ymarfer nid dim ond Rhan 11, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r angen i gynnwys y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol o fewn sefydliadau diogel mewn rhai o'r pecynnau hyfforddi. Mae Cyngor Gofal Cymru yn datblygu'r Strategaeth Dysgu a Datblygu a bydd yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn

Ystyriwyd bod yr angen am drefniadau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr, naill ai i hwyluso trosglwyddiadau haws rhwng carchardai neu pan fydd unigolyn yn cael ei ryddhau o'r carchar ac yn ailsefydlu ar draws y ffin, yn ofyniad cryf. Mae hyn y tu allan i'r cod ymarfer ond mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion cyfatebol yn Whitehall i ystyried yr hyn y gellir ei ddatblygu.

Mae'r Cod wedi cael ei ddiwygio yn sgîl yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniadau gwaith parhaus y Grŵp Llywio ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel.

Preswylfa arferol

Mae'r ymgynghoriad yn dangos y credir yn gyffredinol bod y cod ymarfer ar breswylfa arferol a datrys anghydfod yn glir ac yn gynhwysfawr. Yn benodol, mae'r gweithdrefnau datrys anghydfod wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid.

Roedd y prif faes o bryder yn ymwneud â pha fathau o lety y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau llety a bennir. Mynegodd nifer o ymatebion bryder y gallai'r cyfeiriad yn adran 194 at 'anghenion am ofal a chymorth nad oes modd eu diwallu ond os yw'n byw mewn llety o fath a bennir' gyfyngu ar y dewis o lety a ddarperir i ddiwallu anghenion unigolyn. Mae angen pwysleisio nad yw adran 194 o'r Ddeddf yn ymwneud â diogelu hawl oedolyn i gael ei anghenion gofal a chymorth wedi'u diwallu yn y ffordd fwyaf priodol, ond mae'n ymwneud â pha awdurdod lleol sy'n gyfrifol am eu diwallu (a'u cyllido) mewn rhai amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 3 a 4 o'r Ddeddf yn nodi'r trefniadau ar gyfer asesu anghenion gofal a chymorth unigolyn, ac ar gyfer sicrhau eu bod yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol, a pharhau i'w hadolygu.

Effaith fwriadedig Rheoliadau Gofal a Chymorth (Preswylfa Arferol) (Llety Penodedig) (Cymru) yw sicrhau pan fydd oedolyn yn cael llety mewn llety cartref gofal, a bod gan yr oedolyn anghenion gofal a chymorth y gellir eu

diwallu dim ond drwy fyw yn y math hwn o lety, fod yr oedolyn hwnnw yn cael ei drin fel un sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol roedd yr oedolyn yn preswyllo fel arfer ynddi cyn symud i mewn i'r cartref gofal. Y bwriad polisi penodol y tu ôl i'r ddeddfwriaeth yw egluro pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn sydd wedi'i osod mewn cartref gofal mewn ardal awdurdod lleol arall – h.y. mae'r cyfrifoldeb hwnnw'n parhau gyda'r awdurdod 'lleoli' yn hytrach na'r awdurdod y mae'r cartref gofal wedi'i leoli ynddo.

Roedd y rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys lleoli oedolion (llety rhannu bywydau) yn y llety a bennir. Byddai hyn wedi golygu y byddai oedolyn y gallai ei anghenion gofal a chymorth gael eu diwallu drwy leoli oedolyn yn unig yn parhau i gael ei drin fel un sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol lle roedd yn byw yn union cyn iddo symud i'r lleoliad i oedolyn, ni waeth lle roedd y lleoliad hwnnw i oedolyn. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â llywodraeth leol (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) rydym wedi penderfynu peidio â chynnwys lleoli oedolion yn y rheoliadau. Y rheswm am hyn yw bod oedolion sy'n byw mewn lleoliadau i oedolion (ac eithrio seibiannau byr) yn denantiaid ac yn hynny o beth gallant fod yn gymwys i gael budd-dal tai. Byddai hyn yn cael ei weinyddu gan yr awdurdod lleol y mae'r lleoli oedolyn yn digwydd ynddo, hyd yn oed pe bai'r oedolyn yn cael ei drin fel un sy'n preswyllo fel arfer mewn ardal awdurdod lleol arall o ran gofal a chymorth. Mewn geiriau eraill, gallai'r gost o ddiwallu anghenion tai'r unigolyn, a'r gost o ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth gael ei thalu gan awdurdodau lleol gwahanol pe bai'r lleoliad oedolyn mewn ardal wahanol i lle roedd yr oedolyn yn byw yn union cyn mynd i'r lleoliad. Byddai'n symlach os, lle ceir cytundeb tenantiaeth, bydd preswylfa arferol oedolyn yn cael ei hystyr arferol a naturiol – h.y. bod yr oedolyn yn preswyllo fel arfer lle mae'n byw. Byddai hyn yn golygu bod oedolyn sy'n symud i gynllun lleoli oedolion neu'n symud i fyw â chymorth yn preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r llety hwnnw wedi'i leoli. Felly byddai anghenion gofal a chymorth ac anghenion tai'r oedolyn yn cael eu diwallu gan yr un awdurdod lleol. Ni fyddai hyn yn effeithio ar seibiannau byr mewn llety rhannu bywydau (h.y. byddai'r cyfrifoldeb am ddiwallu gofal a chymorth yr oedolyn hwnnw yn aros gyda'r awdurdod a drefnodd y seibiant byr).

Ceir gweithdrefnau datrys clir o dan reoliadau a chod ymarfer Rhan 11 ar gyfer unrhyw anghydfodau sy'n digwydd, ac mae'r cod yn egluro'r pwysigrwydd a roddwn ar ddulliau cydweithredu a chydweithio rhwng awdurdodau o ran diwallu anghenion gofal a chymorth eu poblogaethau lleol.

Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol Ydy / Nac Ydy | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|------|---------------------------|---------------------|--|
| 1. | ✓ | Kristina Martinsson | |
| 2. | ✓ | - | AGIC |
| 3. | ✓ | | |
| 4. | ✓ | | |
| 5. | ✓ | Lynne Doyle | CBSCNPT |
| 6. | ✓ | Dr Catrin Edwards | Sense Cymru |
| 7. | ✓ | Sarah Jennings | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 8. | ✓ | Dr Jake Hard | Rhwydwaith Amgylcheddau Diogel Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru |
| 9. | ✓ | Parry Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| 10. | ✓ | | |
| 11. | ✓ | Nigel Champ | Pwyllgor Meddygol Cymru |
| 12. | ✓ | | |
| 13. | ✓ | Morwena Edwards | Cyngor Gwynedd |
| 14. | ✓ | Peter Llewelyn | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 15. | ✓ | Deborah Driffield | Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe |
| 16. | ✓ | Gareth Llwyd | Cyngor Sir Ynys Môn |
| 17. | ✓ | Dim Enw | Dim sefydliad |
| 18. | ✓ | Jacqueline Davies | Cyngor Sir Powys |
| 19. | ✓ | Ruth Crowder | Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| 20. | ✓ | Ceri Williams | Cyngor Gofal Cymru |
| 21. | ✓ | Ruth Coombs | Mind Cymru |
| 22. | ✓ | | |
| 23. | ✓ | Hywel Ap Dafydd | Comisiynydd Plant Cymru |
| 24. | ✓ | Dr Sam Clutton | Barnardo's Cymru |
| 25. | ✓ | | |
| 26. | ✓ | Caroline Hawkings | Scope Cymru |
| 27. | ✓ | Robin Moulster | BASW Cymru |
| 28. | ✓ | Holly Towell | Headway |
| 29. | ✓ | Nicola Evans | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 30. | ✓ | Bethan Edwards | Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru |
| 31. | ✓ | Dusty Kennedy | Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid |
| 32. | | Mr Phil Evans | Cyngor Bro Morgannwg |
| 33. | ✓ | | |
| 34. | ✓ | Erin Rodgers | Yr Ymddiriedolaeth Anableddau |
| 35. | ✓ | | |
| 36. | ✓ | Sue O'Grady | Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Sir Powys |

| | | | |
|-----|---|------------------------|--|
| 37. | ✓ | Stuart Moncur | Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Dyfed |
| 38. | ✓ | Helen Evans | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 39. | ✓ | Rosanne Palmer | Age Cymru |
| 40. | ✓ | Edwin Jones | Grŵp Cyngori ym maes Anabledd Dysgu |
| 41. | ✓ | Mair Kromei | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 42. | ✓ | Judith Brookes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 43. | ✓ | Gary Beynon | Carchar EM Prescoed |
| 44. | ✓ | Andrew Griffiths | |
| 45. | ✓ | Mark Duffy | |
| 46. | ✓ | Dienw | |
| 47. | ✓ | Andrew Patterson | . |
| 48. | ✓ | Mark Downey | Carchar EM Prescoed |
| 49. | ✓ | Joshua Grace | |
| 50. | ✓ | Dienw | |
| 51. | ✓ | Matthew Thole | Carchar EM Prescoed |
| 52. | ✓ | Elfed Jones | Carchar Caerdydd |
| 53. | ✓ | Sian Walker/Tony Young | Cyngor Dinas Caerdydd |
| 54. | ✓ | Sara Harvey | Rhaglen Bae'r Gorllewin |
| 55. | ✓ | Marshall Phillips | Is-Bwyllgor Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi |
| 56. | ✓ | Katie Dalton | Gofal |
| 57. | ✓ | Bobby Bolt | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 58. | ✓ | | Sense Cymru |
| 59. | ✓ | | Carcharorion a Theuluoedd, Adain Cymorth i Deuluoedd, Carchar y Parc |
| 60. | ✓ | | Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan |
| 61. | ✓ | | Cyngor Pobl Hŷn Cymru (COPA) |
| 62. | ✓ | | Vocies from Care |
| 63. | ✓ | Anselm Benedict | Cymdeithas y Cyfreithwyr |